GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Yr Adran Orthopteg**

# Esotropia-Atebion i rai cwestiynau cyffredin Gwybodaeth i gleifion

---

## Esotropia

### Beth yw Esotropia?
Esotropia yw math o lygad croes lle mae'r llygad yn troi i mewn tuag at y trwyn. Pan fydd un llygad yn troi nid yw'r llygaid yn cydweithio fel pâr.

Mewn rhai plant, mae'r esotropia yno drwy'r amser ac, mewn eraill, gall fod yn ysbeidiol. Gall maint y llygad croes amrywio yn dibynnu ar bellter y gwrthrych y maen nhw'n edrych arno. Mae'n bosibl y bydd yr esotropia mewn un llygad neu gall amrywio rhwng y ddwy lygad.

### Beth sy'n achosi Esotropia?
Yn aml, achosir Esotropia gan olwg hir ac mae'n bosibl y bydd y plentyn angen gwisgo sbectol. Os bydd angen sbectol, mae'n bosibl y bydd y plentyn yn ceisio "gor" ffocysu hebddyn nhw i gyfaddawdu am y golwg cymylog.

Weithiau, nid oes unrhyw reswm amlwg dros y llygad croes ond yn aml, mae hanes teuluol o wisgo sbectol a/ neu lygad croes.

### A fydd llygad croes fy mhlentyn yn gwella?
Ddim fel arfer, er bod rhai llygaid croes yn mynd yn llai amlwg fel mae person yn mynd yn hŷn.

### A fydd fy mhlentyn angen triniaeth?
Bydd eich plentyn yn cael sbectol os bydd angen. Os mai achos yr esotropia yw "gor" ffocysu, bydd y llygaid yn ymddangos yn fwy syth gyda sbectol. Weithiau mae sbectol yn cywiro'r llygad croes yn gyfan gwbl, ar adegau eraill mae'r llygad croes yn fychan iawn ac weithiau nid ydy'n gwneud gwahaniaeth i faint y llygad croes. Mae'n bosibl y bydd yr esotropia yn dal yno pan fydd y plentyn yn tynnu ei sbectol os bydd y golwg yn gymylog.

Os oes gwahaniaeth yn lefel y golwg rhwng y ddau lygad, mae'n bosibl y bydd eich plentyn angen triniaeth clytiau. Defnyddir clwt i guddio'r llygad "da" am ychydig oriau bob dydd i annog y golwg yn y llygad arall i wella. Bwriad y clwt yw helpu'r golwg i ddatblygu ond ni fydd yn cywiro'r esotropia.

Pan fydd llygad croes yn amlwg, mae'n bosibl y bydd angen llawfeddygaeth. Os bydd y plentyn yn gwisgo sbectol, mae'n bosibl y bydd y llygad croes yn amlwg o hyd heb sbectol.

**Ai'r un driniaeth sydd ar gyfer pob llygad croes?**
Nage – mae nifer o wahanol fathau o lygaid croes sydd angen triniaethau gwahanol. Nid oes dau lygad croes yr un fath ac ni ddylid cymharu. Bydd triniaeth yn cael ei gynnig fesul un.

**Pwy fydd yn trin llygaid fy mhlentyn?**
Bydd tîm llygaid yn trin eich plentyn, a all gynnwys y bobl ganlynol:

- Yr Orthoptydd - Mae Orthoptwyr yn arbenigo mewn mesur a thrin llygaid croes a datblygiad gweledol mewn plant. Bydd yr Orthoptydd yn monitro golwg eich plentyn yn rheolaidd ac yn eich cynghori os byddwch chi angen unrhyw glytiau. Mae'r Orthoptydd yn gweithio'n agos gyda'r Optometrydd a'r Offthalmolegydd .
- Yr Optegydd/ Optometrydd – Bydd yr Optometrydd yn rhagnodi sbectol os bydd angen ac yn dweud wrthych am unrhyw newid sydd angen.
- Yr Offthalmolegydd (meddyg llygaid) – Yr Offthalmolegydd sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol eich plentyn a iechyd llygaid. Mae'n bosibl y bydd yn rhagnodi sbectol. Bydd yn penderfynu os bydd angen llawfeddygaeth ac ef/ hi fydd yr un fydd yn cynnal y llawdriniaeth.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**